

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## **Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Tal y Bont ar nos Iau 11 Hydref, 2018 am 1900**

### **1. PRESENNOL:**

#### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

#### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

### **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Wyn Bowen Harris a Evan Jones.

Cafwyd ymweliad i'r cyfarfod gan John Roberts, Rheolwr Prosiect Datblygu, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, i'n diweddar ar y prosiect. Trafodwyd eu syniadau am gylchdaith, ac hefyd gwaith tacluso corlannau.

Codwyd pryderon yr aelodau am feiciau modur sy'n ymweld a'r mynydd ac yn creu sŵn a llanast, a dychryn y defaid.

Diolchwyd i John am ei amser ac am y cyflwyniad/sgwrs ddiddorol.

### **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2018.

### **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'**- Cyngor Gwynedd wedi dechrau ar y gwaith o glirio'r palmant. Penderfynwyd anfon nodyn o ddiolch, ac i ofyn os yw'r gwaith wedi ei raglennu'n flynyddol nawr, fel a addawyd.

**Rhwysrau cyflymder Tal y Bont**- angen eu paentio gan eu bod yn anodd i'w gweld gyda'r nos. Rhai wedi cael eu paentio, ond ddim pob un yn yr ardal. Angen anfon nodyn i'w atgoffa am y rhai yn Bro Emrys.

**Yr hen A5** - problem gyda gor-yrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. Cwynion gan bobl bron a cael eu taro lawr wrth groesi'r ffordd o'r safle bws, ac hefyd yn beryglus i blant

sy'n cerdded i'r ysgol. Angen mesurau arafu traffig yno ac ymweliad gan yr Heddlu i fonitro. Trafodwyd rhai mesurau y gallai'r Cyngor ei weithredu.

**Cysylltiad Wi-fi araf** - problem gyffredinol yn y plwyf, gyda pobl sy'n gweithio o adref yn dioddef gyda cyflymder llwytho a lawrlwytho. Hefyd bod hyn yn effeithio ar werthiant tai yn yr ardal. Penderfynwyd ysgrifennu at Sian Gwenllian, Hywel Williams a Dafydd Meurig i dynnu eu sylw at y broblem. Derbyniwyd ymateb gan Hywel Williams a Sian Gwenllian sy'n ymwybodol o'r problemau.

**Eglwys Llan** – Tad John Matthews wedi cael arian i drin y coed, ond y gwaith heb ei wneud hyd yn hyn. Cafwyd ymateb gan Tad John Matthews bod angen mwy na un pris gyn ymgymryd a'r gwaith ac eu bod dal yn disgwyl am brisiau.

**Diffibriliwr** – y Clerc i holi am brisiau, a'r aelodau i feddwl am leoliad.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

|                             |          |
|-----------------------------|----------|
| Torri gwair Talybont (Medi) | £200.00  |
| Parry & Co                  | £330.00  |
| Partneriaeth Ogwen          | £2256.52 |

## 6. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Clwb Rygbi Bethesda-cais am gyfraniad ariannol tuag at adnoddau ychwanegol o fewn yr adeilad newydd. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn ystyried y cais yr un adeg a'r rhoddion blynyddol, gyda mantolen.

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol-Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20. Dim sylwadau i'w hanfon.

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a Chyfyngiadau Parcio Arfaethedig. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

**Cyflwynwyd** – llythyr gan Partneriaeth Ogwen-gwahoddiad i gynrychiolydd gyfarfod i drafod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

## 7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Partneriaeth Ogwen**- pawb wedi derbyn copi o raglen waith y Partneriaeth. Meleri wedi drafftio holiadur ar gyfer cae pel-droed Tal y bont. Pawb yn hapus gyda'r cynnwys ac am symyd ymlaen gyda'r ymgynghori.

**Parc Cenedlaethol Eryri** – y Cyngor. Kevin Williams, Dafydd Jones a Alun Thomas wedi mynychu'r digwyddiad yng Nghapel Curig. Noson ddiddorol yn trafod llawer o bynciau fel Cynllunio a'r parcio peryglus wrth Llyn Ogwen.

## 8. Y Mynydd

Trafodwyd y canlynol:

**8.1** Y Clerc wedi anfon llythyrau i'r holl borwyr i'w hysbysu o'u dyraniad am eleni, yn unol â'r ffigyrau a ddarparwyd gan y swyddfa yng Nghaerfyrddin.

## 9. Penderfyniadau Cynllunio:

**C18/0395/21/LL**

Spinnies, Aber Ogwen, Bangor

Codi cuddfan adar a llwybr troed

**Penderfyniad-** Caniatawyd, gydag amodau.

**C18/0766/21/LL**

Cae Mawr, Talybont, Bangor

Dymchwel lolfha haul bresennol a chodi estyniad yn ei le

**Penderfyniad-** Caniatawyd, gydag amodau.

**Ceisiadau Cynllunio:**

**NP3/21/47F**

Fferm y Gell, Llanllechid

Adeiladu sied wartheg

**Penderfyniad-** pryderon gan bod y sied yn edrych yn ofnadwy o fawr, argymell bod swyddog o'r Parc yn ymweld â'r safle.

## **10. Materion Brys**

**Crymlyn, Aber** - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gael cyfarfod ar y safle i ni egluro bod angen arwyddion newydd a gwell ar hyd y ffordd, fel bod hyn ddim yn digwydd eto.

**Tyllau yn y ffordd** - twll dal yn y ffordd sy'n arwain o Lôn Ddŵr at y Llechan. Tyllau twfn hefyd yn Dol Helyg, ac amryw o rhai eraill o gwmpas Tal y bont.

**Noson wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen** - yr aelodau yn awyddus i gyfarnnu tuag at y noson flwyddyn nesaf. Y Clerc wedi anfon e-bost i'r ysgol, ond ddim ymateb hyd yn hyn.